LC1142

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

**Rheoliadau Deddf Addysg 2002 (Darpariaethau Trosiannol a Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2005**

Mae'r Rheoliadau yma’n cymhwyso darpariaethau trosiannol i Ddeddf Addysg 2002 ("Deddf 2002") a hynny mewn cysylltiad â dwyn i rym amryw o ddarpariaethau Deddf 2002 drwy gyfrwng Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 7) (Cymru) 2005. Maen nhw hefyd yn diwygio rheoliadau eraill o ganlyniad i'r gofyniad newydd bod rhaid i ysgolion meithrin a gynhelir gael cyrff llywodraethu.

## Rheol Sefydlog 11.7

Mae’r pwynt canlynol wedi’i nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae rheoliad 8 yn cynnwys cyfeiriad at baragraff 99(2) a (3)(a) o Atodlen 21 i Ddeddf 2002Mae’r Cynghorwyr Cyfreithiol wedi cael ar ddeall mai’r cyfeiriad at baragraff 99(2) yn unig yw’r cyferiad cywir. . [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]. Gall y mân wall draftio yma gael ei gywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

## Glyn Davies AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 11 Hydref 2005